


SAMWELL (SAMWEL, SAMUEL), DAVID (1751 - 1798), meddyg yn y llynges, a bardd



Enw: David Samwell
Dyddiad geni: 1751
Dyddiad marw: 1798
Rhiant: William Samuel
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: meddyg yn y llynges, a bardd
Maes gweithgaredd: Eisteddfod; Meddygaeth; Milwrol; Barddoniaeth
Awdur: William Llewelyn Davies

Ganwyd 15 Hydref 1751 (a'i fedyddio 2 Tachwedd 1751), mab William Samuel, ficer Nantglyn, sir Ddinbych - yr oedd felly'n wyr i **Edward Samuel**. Nid oes ar gael fanylion am ei flynyddoedd cynnar, eithr y mae'n amlwg oddi wrth ei waith a'i ddiddordebau iddo dderbyn addysg dda. Yn 1775 dangosodd, yn y Royal College of Surgeons, Llundain, ei fod yn gymwys i weithredu fel swyddog meddygol yn y llynges - fel '2nd Mate, 3rd Rate' i gychwyn. Y flwyddyn ddilynol hwyliodd gyda'r capten James Cook fel 'surgeon's first mate' ar y *Resolution*; y flwyddyn wedyn trosglwyddwyd ef i'w chymhars, y *Discovery*, i fod yn feddyg y llong honno. Pan laddwyd Cook (ym mis Chwefror 1779) mewn ysgarmes gyda rhai o'r bobl Frodorol yn ynys Hawai'i, yr oedd Samwell yn llygad-dyst o'r weithred; ysgrifennodd yr hanes yn llawn a'i gyhoeddi yn 1786 ar ôl iddo ddychwelyd i Loegr mewn cyfrol a deitlwyd *A Narrative of the Death of Captain James Cook*, gwaith sydd bellach yn brin ond yn parhau i gael ei gyfrif yn werthfawr gan gofianwyr Cook. Yn yr un llyfr, gwnaeth Samwell ymgais i ddadlau yn erbyn y syniad (a dderbynir bellach) fod criwiau Cook wedi cyflwyno clefydau gwenerol i Hawai'i megis siffilis a gonorea, clefydau a gyfrannodd at ddiboblogaeth sylweddol ymysg y bobl Frodorol. Parhaodd i weithredu fel meddyg yn y llynges o 1780 hyd 1796, gan wasnaethu mewn tua saith o longau rhyfel. Yn niwedd ei oes bu'n feddyg yn gofalu am garcharorion rhyfel Prydeinig yn Versailles. Dychwelodd i Lundain o Baris ym mis Medi 1798, bu farw yn ei gartref yn Fetter Lane, Llundain, ar 23 Tachwedd y flwyddyn honno, a chladdwyd ef ym mynwent eglwys S. Dunstan, Fleet Street.

Yr oedd i Samwell ddiddordeb arbennig mewn llenyddiaeth Saesneg a Chymraeg - ac y mae cyfrol o waith y bardd Lladin Horas a ddug gydag ef ar ei fordaith gyda Cook wedi ei chadw (yn L.L.G.C.) - ac ym mudiadau diwylliannol Cymreig ei gyfnod. Ysgrifennodd lawer o farddoniaeth Gymraeg a Saesneg - e.e. 'Englyn' pan gyrhaeddodd y *Resolution* hyd at Benrhyn Gobaith Da, penillion ar ddydd gwyl Dewi 1777 pan oedd ei long rywle rhwng Aotearoa / Seland Newydd a Tahiti, etc. Ei ddarn barddonol mwyaf trawiadol, efallai, ym'r '**Padouca Hunt**', cân ddychan yn cyfeirio at y dadlau brwd ymysg Cymry lloggar Llundain ar y mater llogaw! hwnnw: a ddarganfuwyd America gan Gymro o'r enw Madog ymhell cyn i Columbus hwylio tuag yno, ac a oedd Madog yn gyndad llwyth o siaradwyr Cymraeg ymysg y boblogaeth Frodorol? Yr oedd hefyd ar delerau cyfeillgar â rhai o lenorion Seisnig ei gyfnod. Er mor ddiddorol ydyw ei ganeuon y mae'n bosibl i Samwell wneuthur mwy o les i'w wlad trwy helpu gyda'r gwaith o gasglu gwaith **Dafydd ap Gwilym** a **Huw Morys** ac fel aelod o Gymdeithas y Gwyneddigion; yr oedd yn un o aelodau cynnar y gymdeithas honno (1774), daeth yn ysgrifennydd iddi yn 1788, ac yn llywydd yn 1797. Yr oedd iddo gyfran yn nhrefnu 'Gorsedd' Llundain a'r eisteddfodau yng Nghymru gan y Gwyneddigion. Bu'n noddwr arbennig i **Thomas Edwards** ('Twm o'r Nant'); yr oedd ganddo gymaint o feddwl o'r bardd hwnnw nes bod ei addoliad ohono yn profi na allai fod yn ddi-uedd wrth geisio barnu rhwng gwaith 'Twm' a gwaith beirdd eraill. Serch hynny i gyd, gellid barnu oddi wrth ei ddarlun (a atgynhyrchir yn yr erthygl gyntaf a enwir isod) ei fod yn wr o natur garedig a rhadlon.

Awduron

Syr **William Llewelyn Davies**, (1887 - 1952)

Diwygiwyd gan y tÃ@m golygyddol, 2024

Ffynonellau

W. Ll. Davies, 'David Samwell (1751-98), surgeon of the Discovery, London-Welshman and Poet,' yn *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1926-7, 70-133

W. Ll. Davies, 'David Samwell: A Further Note,' yn *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1938, 257-8, a'r ffynonellau a nodir yn y ddwy erthygl

Llawysgrifau Mysevin yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth yn L.L.G.C.

Leathart, *Origin and Progress of the Gwyneddigion Society of London* (London 1831)

Seth Archer, *Sharks Upon the Land* (Cambridge 2018)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: **David Samwell**

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 14759251

Wikidata: Q5239456

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Davies, W. Ll., (1953). SAMWELL (SAMWEL, SAMUEL), DAVID (1751 - 1798), meddyg yn y llynges, a bardd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 8 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-SAMW-DAV-1751>

Y Bywgraffiadur

Prefatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Yn ddiolch i
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government